# Canllawiau Cynllunio Atodol– Cynllunio a'r Iaith Gymraeg

## 1. Rhagymadrodd

1.1 Mae'r nodyn hwn yn un o gyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol sy'n ymhelaethu ar bolisïau'r Cynllun Datblygu mewn fformat clir a chryno er mwyn gwella'r broses ar gyfer datblygiadau newydd a'u dyluniad a'u hansawdd. Amcan y nodiadau yw cynnig canllaw cyffredinol i helpu aelodau o'r cyhoedd, Aelodau'r Cyngor a swyddogion wrth drafod ceisiadau cynllunio cyn eu cyflwyno a helpu swyddogion ac Aelodau i benderfynu ar geisiadau cynllunio.

1.2 Pwrpas y Canllawiau Cynllunio Atodol yw:

- ☐ Ategu neu ymhelaethu ar bolisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol sydd wedi'i fabwysiadu.
- ☐ Rhoi sylw i ganllawiau cenedlaethol.

## 2. Statws a chamau paratoi

2.1 Nid yw Nodiadau CCA y Cyngor yn rhan o'r cynllun mabwysiedig. Serch hynny, maent wedi bod yn destun penderfyniad ffurfiol gan y Cyngor ac ymgynghoriad â'r cyhoedd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (Y Cynulliad) wedi cadarnhau, yn dilyn ymgynhoriad â'r cyhoedd a chymeradwyaeth ddilynol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI), y gall CCA gael ei drin fel ystyriaeth gynllunio berthnasol pan fydd Awdurdodau Cynllunio Lleol, Arolygwyr Cynllunio a'r Cynulliad yn penderfynu ceisiadau ac apeliadau cynllunio. Cymeradwywyd y Nodyn hwn gan y Cyngor ar y 19fed o Mawrth 2014 i'w ddefnyddio wrth reoli datblygiadau. Mae datganiad yn nodi'r ymgynghori a gyflawnwyd, y sylwadau a dderbyniwyd ac ymateb y Cyngor i'r sylwadau hyn ar gael fel dogfen ar wahân.

2.2 Mae'r nodiadau hyn wedi'u paratoi'n unol â chanllawiau yn Polisi Cynllunio Cymru (Mawrth 2014); Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru (Rhagfyr 2005); Nodyn Cyngor Technegol 20 – Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (Hydref 2013).

2.3 Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yn rhoi cyngor a chyfarwyddyd ychwanegol ynghylch sut y mae'r Gymraeg i'w hystyried mewn ceisiadau newydd am ddatblygu a gyflwynir drwy'r system gynllunio. Mae'n ategu polisïau RD5 yng Nghynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Sir Ddinbych - "Yr Iaith Gymraeg a gwead cymdeithasol a diwylliannol cymunedau".

1 Mae rhestr termau yn **Atodiad 1**.

## 2 Polisi Cynllunio Cenedlaethol

3.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru (pumed argraffiad) yn datgan y "dylai pob awdurdod cynllunio lleol ystyried a oes ganddynt gymunedau lle y mae'r defnydd o'r Gymraeg yn rhan o'r gwead cymdeithasol a, lle y mae hynny'n wir, mae'n briodol ystyried hynny wrth lunio polisïau defnydd tir". Mae'n datgan ymhellach y gall y system gynllunio gyfrannu at ei lles.

3.2 Mae Nodyn Cyngor Technegol 20 (TAN 20) "Cynllunio a'r Iaith Gymraeg" (Hydref 2013) yn rhoi mwy o bwyslais ar asesu effeithiau datblygu ar y Gymraeg wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol ac yn nodi bod asesiad o effaith i'w gynnwys yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer y cynlluniau. Fodd bynnag, nid oes cyfarwyddyd penodol ynghylch sut i wneud hynny, sut y dylid ei asesu a pha ddylanwad a gaiff hyn ar bolisïau cynllunio. Disgwylir canllawiau pellach gan Lywodraeth Cymru yn 2014.

3.3 Mae cryn bwyslais yn TAN 20 ar baratoi'r Cynllun Integredig Unigol a sicrhau bod ei gasgliadau wedi'u hadlewyrchu ym mholisïau defnydd tir y Cynllun Datblygu Lleol. Pwrpas y Cynlluniau Integredig Unigol yw gosod y fframwaith strategol a hirdymor cyffredinol ar gyfer yr ardal leol ac maent yn cael eu paratoi gan yr Awdurdod Lleol. Rhoddir ystyriaeth i hyn pan adolygir Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych.

3.4 Mae TAN 20 hefyd yn cynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio mesurau lliniaru i leihau effeithiau ieithyddol niweidiol. Rhoddir mwy o gyfarwyddyd ynghylch eu defnyddio'n lleol yn ddiweddarach yn y canllawiau hyn ac am y posibilrwydd o'u defnyddio mewn atodlen A106 neu Ardoll Seilwaith Cymunedol.

## 4. Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych (mabwysiadwyd ym Mehefin 2013)

4.1 Dechreuodd Cyngor Sir Ddinbych ar y gwaith o lunio'r Cynllun Datblygu Lleol yn 2006. Un o amcanion CDLl Sir Ddinbych yw sicrhau bod "effaith datblygiad newydd ar yr iaith Gymraeg a'r diwylliant yn cael ei hasesu ym mhob rhan o'r sir." (Amcan 7, tudalen o'r CDLl). Yn yr un modd ag amcanion eraill y Cynllun, y strategaeth ofodol a ffefrir yn y cynllun yw canoli'r rhan fwyaf o'r datblygiadau newydd o dai a chyflogaeth yn rhan ogleddol y Sir ger y llwybrau trafnidiaeth allweddol presennol a lle y mae 60% o boblogaeth y Sir yn preswylio. Er mwyn cael integreiddio gwell rhwng y gwahanol fathau o ddefnydd tir, buddsoddi mewn seilwaith a chyfleusterau cymunedol, mae safle strategol allweddol wedi'i ddynodi ym Modelwyddan.

4.2 Yr ardaloedd yng ngogledd y Sir lle y canolir datblygiadau newydd yw'r ardaloedd lle y ceir y ganran isaf o siaradwyr Cymraeg yn y Sir hefyd (tua 15% o'r boblogaeth yng ngogledd y Sir sy'n siarad Cymraeg). Yn gyffredinol, mae'r ardaloedd cryfaf o ran y Gymraeg ymhellach i'r de yng nghefnwlad wledig Rhuthun a Dinbych lle y cynigir datblygu mwy cyfyngedig ar dai newydd ac felly disgwylir y bydd llai o effaith ar gymunedau Cymraeg.

4.3 Cynhaliwyd asesiad ieithyddol o Opsiynau'r Strategaeth (CDLl Cyn Adneuo) yn rhan o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer CDLl Sir Ddinbych ac, ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd, penderfynodd y Cyngor fod angen cynnwys polisi i ofyn am ddadansoddi mwy manwl ar gyfer rhai mathau o geisiadau cynllunio yn ôl eu lleoliad a graddfa'r datblygiad. Cytunodd yr Arolygiaeth Gynllunio ar hyn yn ystod yr Archwiliad o'r Cynllun ac wrth ei fabwysiadu wedyn.

4.4 Felly mae'r Cyngor o'r farn bod y dull o weithredu sydd ym Mholisi RD5 yn parhau. Mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod yn anodd gwahanu a dadansoddi'r union effaith o ddatblygiad penodol ar iaith dros gyfnod. Mae'r canllawiau hyn yn ceisio delio â'r broblem hon drwy edrych ar gymunedau mewn ffordd gyfannol, gan ystyried iaith yn elfen sy'n rhan annatod o fywyd y gymuned a gweithgareddau oddi mewn iddi. Gellir ystyried bod hyn yn estyniad i fethodoleg gynaliadwy lle y mae nifer o wasanaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn dylanwadu ar ei gilydd a lle y mae newid mewn un gwasanaeth yn dylanwadu ar un arall.

4.5 Mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod yn bwysig monitro effeithiolrwydd y polisi a'r canllawiau cynllunio atodol. Gwneir hyn bob blwyddyn drwy'r Adroddiad Monitro Blynyddol.

## 5. Patrymau Ieithyddol

5.1 O ran canran, 24.6% o breswylwyr Sir Ddinbych sy'n nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg o'i chymharu â chyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan o 19% (Cyfrifiad 2011). Ar gyfartaledd, mae 18.6% o boblogaeth y Sir yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. Mae'r ffigur hwn yn cymharu â'r ganran o 20.7% o breswylwyr a nododd eu bod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg yng Nghyfrifiad 2001, dirywiad o 2%.

5.2 Amcangyfrifwyd bod rhwng 1,200 a 2,200 o siaradwyr Cymraeg rhugl yn symud o Gymru bob blwyddyn. Un o nodau Llywodraeth Cymru yw gwrth-droi'r duedd hon a chreu swyddi i gynnal cymunedau, ac mae'r economi leol yn flaenoriaeth leol ar gyfer cyflawni'r nod hwn.

5.3 Roedd Cyfrifiad 2011 hefyd yn dangos bod canran y siaradwyr Cymraeg wedi dirywio mewn 31 o'r ardaloedd Cyngor Cymuned yn Sir Ddinbych ac mai dim ond yn yr 8 sy'n weddill y cafwyd cynnydd. Yng Ngwyddelwern yr oedd y ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg, sef 60.8% ac yn y Rhyl yr oedd yr isaf, sef 14.2% (Mae **Atodiad 2** yn cymharu niferoedd y siaradwyr Cymraeg yng nghyfrifiadau 1991, 2001 a 2011).

5.4 Bydd dyfodol y Gymraeg yn y Sir a ledled Cymru yn dibynnu ar nifer o ffactorau gwahanol ac, yn neilltuol, addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn i gynnal cymunedau cynaliadwy ffyniannus. Gall y system cynllunio defnydd tir helpu i sicrhau bod fframwaith cynllunio priodol a fydd yn galluogi cymunedau cynaliadwy i dyfu a ffynnu.

5.5. Ni ellir ystyried y system gynllunio yn ateb i bob problem wrth geisio atal dirywiad y Gymraeg: ni fydd yn ceisio gwahaniaethu rhwng unigolion ar sail eu gallu ieithyddol na rheoli meddiannaeth tai ar sail ieithyddol. Nid yw hyn yn ymwneud â chenedligrwydd; mae'n ymwneud â diogelu'r defnydd cymdeithasol a diwylliannol o iaith mewn cymunedau.

5.6 Mewn arolwg tai a gynhaliwyd gan yr Awdurdod yn 2011 dangoswyd bod 67% o'r bobl sy'n byw mewn tai sydd wedi'u hadeiladu o'r newydd yn y Sir wedi symud oddi mewn i Sir Ddinbych a bod 27% ychwanegol wedi symud o rywle arall yng Nghymru. O blith y meddianwyr newydd, roedd 24.9% yn siaradwyr Cymraeg rhugl, ac mae hyn yn debyg iawn i'r ffigur cyffredinol yn y Cyfrifiad, sef 24.6%. Mae'r arolwg hwn yn dangos yn glir fod canran uchel o'r meddianwyr newydd un ai'n breswylwyr yn y Sir neu wedi dod o rannau eraill o Gymru (Arolwg Deiliadaeth Tai Newydd Sir Ddinbych: Rhagfyr 2011).

## 6. Polisi RD5 – Yr Iaith Gymraeg a Gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau

6.1 Mae polisi wedi'i gynnwys yn CDLl Sir Ddinbych i ystyried anghenion a buddion y Gymraeg lle y mae'n elfen bwysig yn y gymuned leol (mae'r polisi llawn yn y CDLl). Mae'n berthnasol i geisiadau cynllunio ar raddfa uwchlaw trothwy penodol ac yn ôl eu lleoliad. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n debygol y gofynnir am fesurau lliniaru ar gyfer ceisiadau newydd ar safleoedd a ddyrannwyd sy'n gyson â pholisïau eraill yn y CDLl yn hytrach na gwrthod caniatâd cynllunio am resymau ieithyddol yn unig. Mae'r polisi'n cynnig cyfle i ddatblygwyr geisio ymgysylltu'n gynnar â chymunedau lleol i egluro eu ceisiadau a chael eu cymeradwyaeth a'u cefnogaeth os yw'n bosibl.

6.2 **Fel arfer** disgwylir i ymgeiswyr gyflwyno **DATGANIAD CYMUNEDOL AC IEITHYDDOL** gyda chais cynllunio am ddatblygiadau llai mewn pentrefi, pentrefannau neu gefn gwlad agored. Y datblygiadau llai hyn yw:

- ☐ 5 neu fwy o unedau preswyl;
- ☐ Datblygiad masnachol, diwydiannol, hamdden neu dwristiaeth o $1000m^2$ neu fwy;
- ☐ Ceisiadau a fydd yn arwain at golli cyfleusterau cymunedol neu gyfleoedd cyflogaeth; neu
- ☐ Prosiectau seilwaith a gaiff effeithiau hirdymor ar y gymuned.

6.3 Bydd y Datganiad yn rhoi cyfle i'r datblygwr egluro ei gais yn fwy manwl ac ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ar y gymuned a'i chydbwysedd ieithyddol. Wrth baratoi'r Datganiad, bydd yn ofynnol i'r datblygwr gysylltu â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned a grwpiau cymunedol lleol i gael gwybodaeth a gofyn am eu barn.

6.4 Fodd bynnag, disgwylir na fydd cynlluniau llai yn cael effaith ieithyddol negyddol fel arfer – er enghraifft, mae ceisiadau am dai newydd yn gallu darparu tai fforddiadwy i bobl leol a bydd cyfleoedd cyflogaeth newydd yn helpu i gadw pobl iau o oedran gweithio mewn cymunedau lleol. Byddai mesurau lliniaru bach a gytunir â'r gymuned leol neu'r Cyngor yn gallu dileu unrhyw effeithiau negyddol ar y gymuned a'r iaith. Mae mwy o wybodaeth yn **Atodiad 3** am y ffordd o gwblhau datganiad ieithyddol a'r wybodaeth sydd i'w chynnwys. Nid cyfarwyddiadau manwl yw'r rhain a gall datblygwyr addasu'r dull o gwblhau'r datganiad ar yr amod eu bod yn rhoi digon o wybodaeth sy'n gymesur ac yn berthnasol i'r cais dan sylw.

6.5 Yn yr holl aneddiadau ac yng nghefn gwlad agored bydd angen **ASESIAD EFFAITH CYMUNEDOL AC IEITHYDDOL** manwl ar gyfer ceisiadau cynllunio ar raddfa fwy o:

- ☐ 20 neu fwy o unedau preswyl;
- ☐ Datblygiad masnachol, diwydiannol, hamdden neu dwristiaeth o 3000$m^2$ neu fwy; neu
- ☐ Prosiectau seilwaith a gaiff effeithiau hirdymor ar y gymuned.

6.6 Bydd yr Asesiad Effaith yn gofyn cwestiynau manylach am effeithiau ieithyddol posibl ac yn gofyn i'r datblygwr gynnig mesurau lliniaru os bydd angen, i leihau unrhyw effeithiau niweidiol canfyddedig ar y Gymraeg. Unwaith eto, bydd pwyslais ar gydweithio â'r cymunedau presennol i ddeall pwysigrwydd a bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd ohoni. Mae **Atodiad 4** yn cynnig fframwaith ar gyfer paratoi asesiad ieithyddol. Bydd angen mwy o fanylion nag ar gyfer datganiad ieithyddol a rhaid ceisio ateb yr holl gwestiynau sy'n berthnasol i'r cais.

6.7 Dylai'r mesurau lliniaru fod yn gysylltiedig â'r cais ac yn berthnasol i'r system gynllunio. Bydd pob cynnig yn cael ei drafod yn ôl ei rinweddau ei hun ac felly bydd mesurau lliniaru yn amrywio rhwng gwahanol fathau o ddatblygiad. Bydd rhai cynigion, ynghylch darparu digon o dai fforddiadwy er enghraifft, yn fesurau lliniaru o'u hanfod ac mae'n annhebygol y bydd angen mesurau pellach. Rhai enghreifftiau o fesurau lliniaru yw:

- ☐ Darparu tai fforddiadwy;
- ☐ Adeiladu tai fesul cam;
- ☐ Darparu addysg a lleoedd mewn addysg;
- ☐ Arwyddion ac enwau lleoedd (gan gynnwys enw marchnata, enwau strydoedd ac arwyddion eraill);
- ☐ Mentrau cyflogaeth a hyfforddiant;
- ☐ Cyfrannu at gyfleusterau a grwpiau cymunedol;
- ☐ Darparu cyllid ar gyfer cyrsiau Cymraeg neu fentrau cysylltiedig eraill yn y gymuned.

6.8 Mae'n debygol y gellid casglu cyfraniadau at yr uchod drwy Gytundebau Adran 106, a negodir yn ôl yr angen ar gyfer cynlluniau perthnasol. Bydd y Cyngor yn parhau i ddatblygu rhestr a chyfraddau tâl mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill.

6.9 Yn unol ag arfer da, anogir ymgeiswyr i drafod ceisiadau ymlaen llaw â swyddogion a fydd yn helpu i ddarparu gwybodaeth ystadegol a gwybodaeth sy'n berthnasol ar gyfer cwblhau datganiad neu asesiad cymunedol ieithyddol yn foddhaol. Drwy ddarparu'r wybodaeth hon, bydd y datblygwr yn gallu egluro'r cais yn well ac ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon â'r gymuned leol yn gynnar.

## 7. Gweithredu

7.1 Yr ymgeisydd fydd yn dwyn y gost a'r cyfrifoldeb o baratoi datganiad neu asesiad ieithyddol, er y bydd yr awdurdod lleol yn helpu drwy ddarparu gwybodaeth ystadegol ac unrhyw gyfarwyddyd angenrheidiol. Mewn achosion lle nad yw'n glir a oes angen datganiad neu asesiad, yr awdurdod lleol fydd yn penderfynu ar hynny. Mater i'r awdurdod lleol fydd mesur difrifoldeb yr effeithiau ar fuddion cymunedol ac ieithyddol a phenderfynu a yw'r rhain mor ddifrifol ar eu pen eu hunain i gyfiawnhau gwrthod caniatâd cynllunio. Fodd bynnag, rhagwelir na fydd hyn yn digwydd ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu lle y mae'r defnydd tir arfaethedig a graddfa'r datblygiad yn gyson â'r hyn sydd wedi'i gynnig yn CDLl mabwysiedig Sir Ddinbych. Er hynny, mae'n bosibl y bydd safleoedd ychwanegol ar gael sydd heb eu rhag-weld ac a fydd, o'u hystyried yng nghyswllt polisïau eraill, yn groes i les cynaliadwy cymunedau lleol yn y dyfodol a'u cyfraniad at fywiogrwydd a ffyniant y Gymraeg.

**ATODIAD 1**

**RHESTR TERMAU:**

**Tai fforddiadwy**

Tai sy'n cael eu darparu i ddiwallu anghenion rhai na allant fforddio tai ar y farchnad gyffredinol, ac a gedwir yn dai fforddiadwy ar gyfer y meddianwyr cyntaf ac unrhyw feddianwyr ar ôl hynny.

**Cyfraniad ariannol**

Swm o arian y mae'n ofynnol i'r datblygwr ei dalu i'r Awdurdod Lleol, i'w wario ar ddarparu tai fforddiadwy.

**Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl**

Adroddiad blynyddol y mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol ei ddarparu i Lywodraeth Cymru ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd yr adroddiad hwn yn asesu a yw polisïau a thargedau'n cael eu cyflawni ac a fydd unrhyw newidiadau'n arwain at yr angen am addasu neu ddisodli'r CDLl.

**Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)**

Cynllun statudol a gaiff ei lunio gan bob Awdurdod Lleol sy'n disgrifio sut y bydd y Sir yn datblygu yn y dyfodol. Mae'r CDLl yn cynnwys polisïau a dyraniadau defnydd tir a ddefnyddir i benderfynu ar geisiadau cynllunio. Y cynllun datblygu sydd wedi'i fabwysiadu ar gyfer Sir Ddinbych yw Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006-2021.

**Cytundeb Adran 106**

Cytundeb cyfreithiol sy'n pennu'r trefniadau i oresgyn rhwystrau a allai atal caniatâd cynllunio rhag cael ei roi fel arall. Gellir ei ddefnyddio i wneud iawn am y canlyniadau negyddol i ddatblygiad, i helpu i ddiwallu anghenion lleol neu i sicrhau manteision a fyddai'n gwneud y datblygiad yn fwy cynaliadwy.

Data'r Cyfrifiad – Nifer Poblogaeth a Siaradwyr Cymraeg ym mhob ardal Cyngor Cymuned


| Cyngor Cymuned | **0-3** | **0-14** | **15-64** | **65+** | Cyfanswm y Boblogaeth 201 1 | Cyfanswm y Boblogaeth 2001 | % a aned yng Nghymru 2011 | % Siaradwyr Cymraeg 2011 | % Siaradwyr Cymraeg 2001 | % Siaradwyr Cymraeg 1991 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberchwiler | | 22 | 176 | 100 | 29 | 332 | 52.7 | 27.6 | 33 | 37 |
| Betws Gwerfil Goch | | 77 | 224 | 50 | 35 1 | 364 | 59.3 | 59.8 | 60 | 57 |
| Bodelwyddan | | 411 | 1404 | 332 | 2147 | 2,103 | 57.4 | 17.9 | 18 | 17 |
| Bodfari | | 43 | 197 | 87 | 32 | 334 | 51.4 | 21.7 | 27 | 32 |
| Bryneglwys | | 47 | 254 | 68 | 36 | 351 | 50.7 | 36.0 | 50 | 51 |
| Cefnmeiriadog | | 47 | 259 | 83 | 38 | 437 | 60.7 | 30.4 | 33 | 41 |
| Clocaenog | | 53 | 167 | 34 | 25 | 232 | 64.6 | 54.4 | 49 | 56 |
| Corwen | | 340 | 1525 | 460 | 2325 | 2,397 | 64.7 | 47.9 | 51 | 58 |
| Cwm | | 79 | 244 | 55 | 37 | 387 | 65.6 | 27.5 | 31 | 31 |
| Cyffylliog | | 83 | 316 | 96 | 49 | 489 | 58.8 | 52.9 | 61 | 59 |
| Cynwyd | | 78 | 348 | 116 | 54 | 536 | 66.1 | 59.1 | 68 | 68 |
| Dinbych | | 1568 | 5877 | 1541 | 8986 | 8,808 | 72.9 | 35.3 | 40 | 45 |
| Derwen | | 71 | 261 | 94 | 42 | 456 | 58.0 | 46.7 | 43 | 41 |
| Dyserth | | 470 | 1622 | 445 | 2537 | 2,565 | 60.3 | 20.2 | 21 | 23 |
| Efenechtyd | | 132 | 403 | 120 | 65 | 610 | 66.0 | 54.6 | 54 | 51 |
| Gwyddelwern | | 70 | 332 | 98 | 50 | 501 | 65.0 | 60.8 | 69 | 69 |
| Henllan | | 136 | 560 | 166 | 86 | 743 | 66.7 | 42.4 | 45 | 44 |
| Llanarmon yn Ial | | 167 | 638 | 257 | 1062 | 1,078 | 49.0 | 25.5 | 25 | 25 |
| Llanbedr Dyffryn | | 78 | 502 | 207 | 78 | 847 | 46.0 | 31.0 | 32 | 28 |
| Llandegla | | 97 | 378 | 92 | 56 | 508 | 49.7 | 27.1 | 34 | 28 |
| Llandrillo | | 80 | 355 | 145 | 58 | 584 | 61.2 | 59.2 | 61 | 64 |
| Llandyrnog | | 199 | 691 | 206 | 1096 | 971 | 62.6 | 33.1 | 35 | 34 |
| Llanelidan | | 47 | 219 | 39 | 30 | 317 | 53.4 | 44.9 | 44 | 49 |
| Llanfair Dyffryn Clwyd | | 150 | 666 | 237 | 1053 | 1,058 | 60.0 | 47.7 | 50 | 58 |
| Llanferres | | 111 | 577 | 139 | 82 | 678 | 40.7 | 20.1 | 21 | 21 |
| Llangollen | | 473 | 2263 | 922 | 3658 | 3,404 | 59.3 | 19.5 | 19 | 20 |
| Llangynhafal | | 86 | 387 | 161 | 63 | 660 | 59.9 | 37.2 | 37 | 35 |
| Llanrhaeadr yng Nghimeirch | | 177 | 600 | 261 | 1038 | 1,095 | 69.7 | 51.2 | 61 | 62 |
| Llantysilio | | 47 | 278 | 96 | 42 | 476 | 52.0 | 24.7 | 26 | 32 |
| Llanynys | | 157 | 488 | 117 | 76 | 779 | 68.4 | 47.8 | 52 | 55 |
| Nantglyn | | 38 | 240 | 45 | 32 | 335 | 57.3 | 41.7 | 50 | 48 |
| Prestatyn | | 3082 | 10912 | 4587 | 18,581 | 18,497 | 48.7 | 15.1 | 16 | 11 |
| Rhuddlan | | 542 | 2213 | 954 | 3709 | 5,220 | 63.8 | 19.8 | 22 | 22 |
| Rhuthun | | 933 | 3333 | 1195 | 5461 | 4,298 | 67.8 | 41.7 | 43 | 44 |
| Llanelwy | | 528 | 2060 | 767 | 3355 | 3,492 | 63.8 | 22.9 | 24 | 20 |
| Trefnant | | 245 | 906 | 430 | 1581 | 1,386 | 60.7 | 28.0 | 33 | 31 |
| Tremeirchion | | 111 | 459 | 133 | 70 | 633 | 59.6 | 32.0 | 31 | 37 |
| Waen | | 31 | 160 | 50 | 24 | 254 | 62.2 | 24.4 | 34 | 38 |
| Y Rhyl | | 4651 | 15793 | 4705 | 25,149 | 24,887 | 54.7 | 14.2 | 15 | 11 |
| **Sir Ddinbych** | | **15757** | **58287** | **19690** | **93734** | **93,102** | **58.1** | **24.6** | | |

Scale: 1: 160000
Date: 22/10/2013
Map Sheet:

**1991**

**Cyfanswm Poblogaeth (Poblogaeth Siaradwyr Cymraeg)**
**Total Population (Welsh Speaking Population)**

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL





© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023408
© Crown copyright and database rights 2013 Ordnance Survey 100023408

Scale: 1: 160000
Date: 23/10/2013
Map Sheet:

**2001**

**Cyfanswm Poblogaeth (Poblogaeth Siaradwyr Cymraeg)**
**Total Population (Welsh Speaking Population)**

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL





© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023408
© Crown copyright and database rights 2013 Ordnance Survey 100023408

Scale: 1: 160000
Date: 23/10/2013
Map Sheet:

**2011**

**Cyfanswm Poblogaeth (Poblogaeth Siaradwyr Cymraeg)**
**Total Population (Welsh Speaking Population)**

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023408
© Crown copyright and database rights 2013 Ordnance Survey 100023408

**ATODIAD 3**

**Enghraifft o'r ffordd o baratoi datganiad cymunedol ac ieithyddol**

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd gwblhau Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol ar gyfer mathau penodol o ddatblygu yn unol â Pholisi **RD5 - Yr Iaith Gymraeg a Gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau**. Rhaid cwblhau'r datganiad drwy ateb cynifer â phosibl o'r cwestiynau isod gan roi cymaint o fanylion â phosibl – efallai y byddwch hefyd am gynnwys mwy o wybodaeth am ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned neu am unrhyw fater arall y credwch ei fod yn angenrheidiol. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) yn gwirio'r wybodaeth a gall ofyn am eglurhad neu am fwy o fanylion i sicrhau bod y Datganiad yn gywir ac yn gyflawn cyn penderfynu ar gais am ganiatâd cynllunio.

**1. Ymgysylltu â'r Gymuned**

Dangoswch sut yr ydych wedi ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned leol ar eich cynigion. Gall hyn gynnwys ymgynghori â chymdogion, grwpiau cymunedol a gwirfoddol, y Cyngor Cymuned neu sefydliadau statudol fel y Cyngor. Dylech roi datganiad byr am yr ymgysylltu ac am farn y rheini sydd wedi ymateb. Mae hyn yn gyfle i chi rannu'ch cynigion â'r gymuned leol a'u hegluro cyn cyflwyno cais ffurfiol a chael cymeradwyaeth gan y gymuned os yw'n bosibl. Ni fydd llwyddiant y cais cynllunio yn dibynnu'n llwyr ar y derbyniad gan y gymuned.

**2. Proffil Poblogaeth**

Rhaid deall natur ddemograffig leol yr anheddiad neu ardal Cyngor Cymuned lle y mae safle'r cais er mwyn deall sut y gallai effeithio ar y gymuned, gan gynnwys newidiadau dros amser. Bydd y proffil poblogaeth ac oedran cyffredinol yn helpu i ddangos pam y mae angen y datblygiad a phwy sy'n debygol o gael mantais. Bydd nifer y siaradwyr Cymraeg yn awr ac yn y gorffennol yn ffactor critigol. Bydd yr ACLl yn darparu cyfeiriadau at wybodaeth ystadegol gefndir ar sail Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned.

Drwy ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd a'ch gwybodaeth chi am y cais, dylech allu ateb y cwestiynau isod.

**3. Nodweddion y Datblygiad**

Disgrifiwch y cais a pham yr ydych yn credu ei fod yn gyson â pholisïau lleol a chenedlaethol. Y man cychwyn fydd dangos yn glir fod y cais yn gyson â CDLl Sir Ddinbych. Dylech wneud hyn nid yn unig drwy restru'r polisïau a'r amcanion yn y Cynllun ond hefyd drwy gynnwys cyfiawnhad llawnach dros y cynigion a sut y byddant yn cyfrannu'n **gadarnhaol** at weithredu'r Cynllun. Felly dylech allu trafod ac ateb y cwestiynau canlynol:

**Cyffredinol:**

☐ A yw'n gyson â pholisïau cenedlaethol a lleol gan gynnwys polisïau cynllunio lleol yn CDLl Sir Ddinbych?

☐ A fydd y cais yn creu cyfleoedd newydd i hyrwyddo'r Gymraeg a mentrau lleol yn y gymuned? ☐ A oes gw
preswyl/cymunedol i wasanaethu'r datblygiad?
☐ A yw'r datblygiad yn gynaliadwy yn y tymor hir? ☐ A oe
digonol i wasanaethu'r datblygiad?

### Datblygu ar gyfer cyflogaeth (gan gynnwys manwerthu)

☐ A yw'r gyflogaeth yn cwrdd ag anghenion lleol yn bennaf, yn enwedig ymysg grwpiau oedran iau? ☐ Faint o swyddi a gaiff eu creu neu eu diogelu? ☐ A
llafur angenrheidiol ar gael yn lleol? ☐
caniatâd cynllunio yn yr ardal? ☐ A yw'r
fuddsoddi? o fath tebyg? ☐ A oes angen hyfforddiant i ddysgu sgiliau newydd i'r gweithlu lleol ac a fydd hyn yn cynnwys hyfforddiant Cymraeg gan y datblygwr?

☐ Sut y bydd y lefelau cyflog newydd yn cymharu â'r lefelau cyflog cyfartalog yn yr ardal? ☐ A gaiff datblygiadau tw ch disgwyliedig?
y cais yn ategu neu'n cystadlu ag atyniadau i ymwelwyr sy'n bod yn awr?
wedi ystyried defnyddio arwyddion dwyieithog y tu mewn a'r tu allan ac enw
marchnata sydd â chysylltiad â'r ardal leol?

### Datblygu tai

☐ Beth fydd pris disgwyliedig y tai ar y farchnad a sut y mae hyn yn cymharu ag incwm teuluoedd lleol? ☐ A yw'r da
fforddiadwy i gwrdd ag anghenion lleol? ☐
wedi'u cwblhau yn y pum mlynedd diwethaf? Os oes, a ydynt wedi cwrdd ag anghenion lleol yn bennaf? ☐
gymuned yn y pum mlynedd diwethaf? ☐ Beth fydd y

### 4. Mesurau Lliniaru a Hyrwyddo Cadarnhaol

Mae'n bosibl y bydd nifer o gyfleoedd i'r datblygwr gyfrannu'n gadarnhaol at gynnal cymunedau lleol ffyniannus. Os bydd y gwaith ar y datganiad yn dangos, ar ôl ei gwblhau, y bydd effaith negyddol bosibl ar y gymuned, mae mesurau penodol ar gyfer lliniaru neu hyrwyddo mewn cysylltiad â'r cais a allai wneud iawn am y gwendidau hyn. Rhai enghreifftiau posibl yw:

- ☐ Tai fforddiadwy– codi tai a fydd yn fforddiadwy i bobl leol
- ☐ Codi tai fesul cam dros gyfnod hirach er mwyn cymathu newid

- ☐ Cyfrannu at ddarparu addysg a lleoedd mewn addysg
- ☐ `Arwyddion ac enwau lleoedd
- ☐ Cyfrannu at gyfleusterau a grwpiau cymunedol
- ☐ Mentrau cyflogaeth a hyfforddiant
- ☐ Darparu cyllid ar gyfer cyrsiau Cymraeg neu fentrau cysylltiedig eraill sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg

Mae'n bosibl y bydd y datblygwr yn dymuno cyfrannu'n wirfoddol at fesurau lliniaru drwy ymgynghori â'r gymuned leol a'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Fel arfer bydd hyn yn cael ei drefnu drwy wneud cytundeb cyfreithiol Adran 106 â'r Awdurdod Cynllunio Lleol neu drwy ffordd wirfoddol arall gyda grwpiau cymunedol. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn parhau i ymchwilio i ffyrdd priodol o liniaru ar gyfer y dyfodol.

**ATODIAD 4 Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol**

## 1. Cefndir

Mae methodoleg yr Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol yn cynnwys rhestr wirio a fydd yn galluogi'r datblygwr a'r Awdurdod Cynllunio Lleol i asesu effaith debygol y datblygiad arfaethedig ar bum agwedd ar fywyd cymunedol:

- ☐ Poblogaeth (lefelau a nodweddion y boblogaeth honno)
- ☐ Ansawdd bywyd (ffactorau sy'n cymell pobl i aros yn y gymuned, ei gadael neu symud i mewn iddi)
- ☐ Yr economi (ei heffaith ar gyfleoedd cyflogaeth ar gyfer gwahanol grwpiau yn ogystal â chostau byw ac, yn fwy penodol, cost tai)
- ☐ Seilwaith (pethau sy'n angenrheidiol i gynnal y gymuned, yn enwedig ysgolion, gofal iechyd a gwasanaethau hanfodol)
- ☐ Bywyd cymdeithasol a diwylliannol y gymuned (sy'n cael ei amlygu drwy hyfywedd sefydliadau diwylliannol, yn enwedig y rheini sy'n effeithio ar bobl iau).

Mae sefydlogrwydd y boblogaeth neu dwf cymedrol ynddi, ynghyd ag ansawdd bywyd da, economi gryf, seilwaith o ansawdd uchel a bywyd cymdeithasol a diwylliannol bywiog yn hanfodol ar gyfer cydlyniant a chynaliadwyedd y gymuned. Lle y mae'r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol y gymuned, bydd cysylltiad annatod rhwng ei thynged a'i lles a ffyniant cyffredinol y gymuned honno. Os yw datblygiad yn debygol o niweidio unrhyw un o'r agweddau hyn, gallai gael effaith anffafriol hefyd ar y Gymraeg. Fodd bynnag, os yw'n sensitif i'r cyd-destun lleol e.e. cynnal yr economi leol, yna mae'n llawer mwy tebygol y bydd yr effaith yn gadarnhaol.

## 2. Methodoleg ac Asesu

Atebwch y cwestiynau canlynol. Ar ôl ateb y prif gwestiwn, mae cyfle i roi sylwadau ychwanegol am faterion allweddol.

Mae Rhan (a) ar ôl pob cwestiwn yn gyfle i DDISGRIFIO'R asesiad cyffredinol;

Mae Rhan (b) yn DDATGANIAD o dystiolaeth, wedi'i seilio ar brofiad blaenorol fel arfer;

Mae Rhan (c) yn DDATGANIAD ynghylch a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y gymuned;

Mae Rhan (d) yn ymwneud â sut y gellid lliniaru unrhyw effeithiau NEGYDDOL a/neu gynyddu unrhyw effaith GADARNHAOL.

Bydd y sgorau o +1, -1 neu 0 yn cael eu hychwanegu wrth ateb y cwestiynau am bob un o'r pum agwedd ar fywyd cymunedol. Mae'n bwysig gallu cymharu opsiynau wrth gynnal asesiad, gan y bydd hyn yn arwain yr asesydd at y dewis 'gorau' cyffredinol. Mae'r asesiad effaith yn helpu i benderfynu beth fydd yr effeithiau posibl ar y pum agwedd ar fywyd y gymuned. Yr asesydd fydd yn gwneud y dewisiadau terfynol.

### 3. Mesur yr Effaith Gyffredinol

Bydd yr effaith gyffredinol yn dibynnu ar nifer y sgorau cadarnhaol/negyddol ac a fydd y sgorau negyddol yn aros yr un fath os cymerir y camau lliniaru sy'n ymarferol. Yn ogystal â hyn, bydd angen ystyried polisïau eraill yn CDLl Sir Ddinbych ac asesu manteision cyffredinol y cais o ran ei gyfraniad at weithredu'r Cynllun a'i amcanion a gweledigaeth strategol.

Ar sail y blaenoriaethau polisi a'r amcanion yn CDLl Sir Ddinbych, a phroffil economaidd-gymdeithasol y gymuned lle y mae'r datblygiad wedi'i gynnig, gall yr asesydd roi pwys ychwanegol ar un neu ragor o'r pum agwedd yn y rhan hon o'r asesiad. Mae'r penderfyniad ynghylch pa agwedd(au) y rhoddir mwy o bwys arnynt yn fater i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, a gwneir hyn ar sail amgylchiadau lleol a blaenoriaethau polisi. Fel arall, gall yr asesydd gymryd bod pob un o'r pum agwedd yr un mor bwysig ac felly rhoi'r un pwys ar bob un.

**CWESTIYNAU**

**NODWEDDION Y BOBLOGAETH**

1. A yw'r datblygiad yn debygol o arwain at gynnydd / gostyngiad yn y boblogaeth a allai:

Effeithio ar gydbwysedd y siaradwyr Cymraeg (yn gadarnhaol neu'n negyddol); neu

Arwain at ostyngiad absoliwt neu gyfrannol yn nifer y siaradwyr Cymraeg?

1. A yw'r datblygiad yn debygol o arwain at fwy o fewnfudo?
2. A yw'r datblygiad yn debygol o arwain at fwy o allfudo?
3. A yw'r datblygiad yn debygol o arwain at newid yn strwythur oedran y gymuned?

**ANSAWDD BYWYD**

1. A yw'r datblygiad yn debygol o effeithio ar iechyd pobl leol?
2. A yw'r datblygiad yn debygol o effeithio ar amwynder yr ardal leol?
3. A yw'r datblygiad yn debygol o arwain at fygythiad o fwy o droseddu neu drais yn y gymuned?

**FFACTORAU ECONOMAIDD**

8. A yw'r datblygiad yn debygol o gael effaith niweidiol ar fusnesau lleol?

9. A yw'r datblygiad yn debygol o gael effaith niweidiol ar swyddi lleol?

10. A yw'r datblygiad yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd?

11. A yw’r datblygiad yn debygol o effeithio ar lefelau cyflog / tâl lleol?

12. A yw’r datblygiad yn debygol o effeithio ar gost gyfartalog tai?

**SEILWAITH**

1. A yw’r datblygiad yn debygol o effeithio ar ysgolion lleol?
2. A yw’r datblygiad yn debygol o effeithio ar y ddarpariaeth o ofal iechyd?
3. A yw’r datblygiad yn debygol o effeithio ar y ddarpariaeth o wasanaethau lleol, fel siopau / swyddfeydd post / banciau / tafarnau?

**AGWEDDAU CYMDEITHASOL A DIWYLLIANNOL**

1. A yw’n bosibl y bydd y datblygiad yn arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu ymrannu difrifol yn y gymuned Gymraeg?
2. A yw’n bosibl y bydd y datblygiad yn arwain at newidiadau yn y traddodiadau/diwylliant Cymraeg lleol?
3. A yw’n debygol y bydd y datblygiad yn cael effaith ddichonol ar grwpiau gwirfoddol / gweithgarwch / ieuenctid lleol?

**Nodiadau**

*Mae **Cwestiwn 1** yn ymwneud â mater sylfaenol y twf neu'r gostyngiad yn y boblogaeth o ganlyniad i ddatblygiad. Mae'r rhan fwyaf o'r mathau o ddatblygu yn gallu sefydlogi'r boblogaeth neu hybu twf. Ond y cwestiwn sylfaenol yw a fydd y datblygiad yn arwain at dwf cynhenid (e.e. yn creu swyddi ac yn galluogi pobl i aros yn y gymuned yn hytrach na'i gadael) neu a fydd yn fwy tebygol o greu mewnfudo. Er bod mewnfudo'n aml yn rym cadarnhaol mewn cymunedau gwledig, mae lefelau twf sylweddol yn debygol o effeithio ar gydbwysedd cymdeithasol (o ran strwythur oedran ac incwm, a chefndir diwylliannol-gymdeithasol). Rhaid barnu a fydd newid mewn poblogaeth yn cael effaith gadarnhaol neu niweidiol ar le'r iaith yng ngwead cymdeithasol y gymuned. Wrth benderfynu, mae'n debygol y gwneir defnydd o brofiad blaenorol a data o Gyfrifiad y DU.*

*Mae **Cwestiwn 2** yn ymwneud yn fwy uniongyrchol â mater mewnfudo. Mae rhai datblygiadau'n debygol o achosi newid yn y strwythur cymdeithasol. Er enghraifft, nid yw datblygiad preswyl ar gyfer ymddeol mewn cymuned sydd â strwythur oedran ifanc yn debygol o gwrdd ag angen lleol a bydd yn achosi newid cymdeithasol parhaol. Fodd bynnag, mae datblygiad tai gwyliau yn annhebygol o achosi newid parhaol yn y strwythur cymdeithasol, a gallai arwain at fanteision economaidd a asesir mewn cwestiynau diweddarach. Unwaith eto, bydd y farn wedi'i seilio ar brofiad gan ddefnyddio data o'r Cyfrifiad i'w hategu.*

*Mae **Cwestiwn 3** yn edrych ar allfudo. Nid yw'r rhan fwyaf o ddatblygiadau'n cael eu cysylltu ag allfudo, ond mae rhai eithriadau amlwg. Byddai addasu gwasanaethau hanfodol (er enghraifft, siopau neu ysgolion) at ddefnydd preswyl yn gallu cymell pobl i beidio ag aros yn y gymuned. Byddai mathau anghymdogol o ddefnydd tir (er enghraifft, cyfleusterau trin gwastraff neu losgyddion) neu rai a welir yn anaddas gan mwyaf mewn ardaloedd gwledig anghysbell (gan gynnwys canolfannau lloches mawr) yn gallu cael effaith debyg. Unwaith eto, rhaid seilio'r farn ar asesiadau blaenorol.*

*Mae **Cwestiwn 4** yn cydnabod mai anaml y bydd symudiadau neu golledion poblogaeth yn effeithio i'r un graddau ar bob oedran. Mae datblygiadau'n debygol o effeithio mewn ffyrdd gwahanol ar bobl iau, teuluoedd, pobl sengl a theuluoedd hŷn. Byddai datblygiad sy'n denu pobl sydd wedi ymddeol yn gallu lleihau'r cyfleoedd tai ar gyfer pobl iau. Mae'n bosibl y bydd datblygiad sy'n creu swyddi neu gyfleoedd tai sydd heb fod yn addas i gwrdd ag anghenion pobl iau yn arwain yn anfwriadol at symud pobl o'r fath o'r gymuned leol. Os na fydd datblygiad yn hyrwyddo ac yn helpu i gynnal cydbwysedd cymdeithasol, mae'n debygol o fod yn anghynaliadwy o safbwynt cymdeithasol a diwylliannol.*

*Mae **Cwestiwn 5** yn holi am y cysylltiad rhwng iechyd a chymuned.  Gellid cael iechyd gwaeth os na fydd tai'n cwrdd ag anghenion; os bydd ffyrdd a seilwaith wedi'u cynllunio'n wael; neu os bydd datblygiad diwydiannol yn cyfrannu at amgylchedd byw o ansawdd gwael. Yn yr un modd, os na fydd mannau gwrdd yn rhan o gynigion datblygu, gall yr ardal fod yn llai deniadol.  Mae'n bosibl na fydd prosesau o'r fath yn effeithio'n wahanol ar breswylwyr Cymraeg/di-Gymraeg. Fodd bynnag, os yw cymuned yn Gymraeg gan mwyaf – neu os dangoswyd bod y Gymraeg yn rhan o'r gwead cymdeithasol – gall gostyngiad mewn ansawdd bywyd gael effaith ar sefydlogrwydd y gymuned; os yw pobl yn gallu fforddio symud i ffwrdd, mae'n bosibl y byddant yn gwneud hynny, a gellir cael mwy o begynu cymdeithasol mewn lleoedd o'r fath.  Yr ochr arall i'r geiniog, wrth gwrs, yw y bydd ymfudwyr di-Gymraeg yn llai tebygol o gael eu denu i fannau anneniadol, oni bai mai cost yw'r brif ystyriaeth ganddynt yn hytrach nag ansawdd bywyd a harddwch yr ardal.*

*Mae **Cwestiwn 6** yn ymwneud â mater cysylltiedig.  Bydd unrhyw ddirywiad yn ansawdd yr amgylchedd yn cael effaith debyg, gan wneud trefi, pentrefi neu gymdogaethau penodol yn llai deniadol. Byddai gostyngiad yn yr ansawdd amgylcheddol/esthetig, neu mewn amwynder cyffredinol, yn gallu ysgogi allfudo gan deuluoedd sydd â mwy o rym gwario, ac achosi mewnlifiad o deuluoedd ar incwm is. Mae hyn yn debygol o effeithio ar y cydbwysedd rhwng preswylwyr Cymraeg/Saesneg eu hiaith, yn ogystal â'r cydbwysedd rhwng gwahanol grwpiau incwm a chymdeithasol. Rhaid i gymunedau gynnig ansawdd bywyd derbyniol er mwyn aros yn gymdeithasol sefydlog a chydlynol.*

*Mae **Cwestiwn 7** yn canolbwyntio ar droseddu: bydd troseddu – yn yr un modd ag iechyd ac amwynder – yn dylanwadu ar sefydlogrwydd a chydlyniant cymdeithasol yn y tymor hir.  Mewn cymuned gynaliadwy, bydd troseddu'n cael ei gadw ar lefel oddefadwy.  Unwaith eto, mae'n bosibl y bydd mwy o droseddu – neu fwy o ofn troseddu – yn cymell pobl i symud i ffwrdd neu'n atal twf cytbwys yn y boblogaeth. Bydd yn arwain hefyd at straen ar bobl a all ddwysáu pryderon am iechyd. Mae'r holl faterion hyn, sy'n ymwneud ag ansawdd bywyd, yn bygwth cydbwysedd cymdeithasol: bydd pobl sy'n gallu fforddio symud i ffwrdd yn gwneud hynny; gall grwpiau ar incwm is sydd â'r lleiaf o ddewis o ran lle i fyw ddod yn brif grwpiau yn y gymuned. Mae diffyg cydbwysedd cymdeithasol o'r fath yn debygol o fynd yn groes i fuddiannau'r Gymraeg, gan mai dim ond mewn cymunedau cytbwys, cynaliadwy y mae'n gallu ffynnu.*

*Mae **Cwestiwn 8** yn ymwneud â'r agwedd economaidd ar y gymuned.  Byddai datblygu newydd yn gallu arwain at sefydlu neu gau/lleihau busnesau yn yr ardal, gan greu effaith bosibl ar y ddarpariaeth o nwyddau a'u pris.  O ganlyniad i hyn, mae'n bosibl na fydd rhannau o'r boblogaeth yn gallu cael gafael ar nwyddau o'r fath neu gallai preswylwyr gael mwy o ddewis o nwyddau. Bydd yn bwysig asesu i ba raddau y mae gwahanol fathau o fusnesau'n agos i'w gilydd ac a yw hyn o fantais neu anfantais i'r gymuned.*

*Mae **Cwestiwn 9** yn cydnabod bod datblygiadau newydd yn gallu effeithio ar nifer, math ac ansawdd y swyddi sydd ar gael yn y farchnad lafur leol, yn ôl y dewis o sgiliau sydd ar gael. Os bydd rhai sgiliau'n brin, gall hynny arwain at newid ym mhroffil y gymuned gan fod gweithwyr yn penderfynu symud i fannau lle y gallant ddefnyddio eu sgiliau'n effeithiol.*

*Mae **Cwestiwn 10** yn mynd gam ymhellach ac yn cydnabod y gall datblygu newydd arwain at gyfleoedd cyflogaeth newydd, a galw am sgiliau penodol: e.e. bydd datblygiad hamdden / twristiaeth wedi'i seilio ar ddiwydiannau diwylliannol yn gallu galw am fwy o ddefnydd o'r Gymraeg fel sgil yn y farchnad lafur. Byddai'n rhaid asesu'r posibiliadau ar gyfer arallgyfeirio economaidd a'r gallu i gartrefu gweithluoedd newydd.*

***Cwestiwn 11** Byddai cystadlu o fewn sectorau cyflogaeth yn gallu arwain at benderfyniadau yn y farchnad lafur ynghylch lle y bydd pobl yn derbyn cyflogaeth ac ansawdd canfyddedig y cyfleoedd cyflogaeth. Mewn economi fyd-eang gystadleuol, gall cymunedau sy'n dibynnu ar gyflogaeth allweddol fod yn agored i'r effaith o newidiadau niweidiol mewn lefelau cyflog a chystadlu rhwng busnesau.*

***Cwestiwn 12** Mae amrywiadau yn y galw am dai yn debygol o arwain at gynnydd neu ostyngiad ym mhrisiau tai ac mae hyn yn debygol o gael effaith anghyfartal ar wahanol rannau o'r gymuned. Mae prisiau tai, pan fyddant yn mynd law yn llaw â phwysau eraill ar dai, yn gallu effeithio ar y cyfle sydd gan rai i gael tai. Gall hyn arwain hefyd at fewnfudo neu allfudo a chael effaith benodol ar faint y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Byddai datblygiadau tai ac amrywiadau ym mhrisiau tai yn gallu arwain hefyd at fwy o gymudo. Gall hyn fod yn symptom o newidiadau mwy cyffredinol yn y farchnad dai.*

*Mae **Cwestiwn 13** yn ymwneud â'r gallu i gynnal cyfleusterau addysg lleol. Byddai datblygiad yn gallu bod yn llesol i wasanaethau lleol hanfodol, fel ysgolion, drwy greu cynnydd yn y boblogaeth iau. Byddai diffyg datblygu ac, felly, dim newid ym mhroffil oedran presennol y gymuned, yn gallu tanseilio hyfywedd ysgolion yn y dyfodol. Byddai diffyg dewis a darpariaeth o dai hefyd yn gallu effeithio ar benderfyniadau gan deuluoedd iau sydd â phlant ynghylch a fyddant yn aros mewn ardal benodol. Mae mwy o deuluoedd yn gwneud penderfyniadau penodol ar sail eu dewis o ysgol y dyddiau hyn a gall hyn fod yn ffactor, ac yn brif ffactor o bosibl, wrth benderfynu ynghylch symud tŷ.*

*Mae **Cwestiwn 14** yn ystyried y ddarpariaeth o ofal iechyd yn y gymuned. Gan fod nifer y bobl oedrannus yn tyfu'n gyflymach na nifer y bobl ifanc, un ffactor hanfodol wrth benderfynu a fydd rhywun yn aros mewn ardal neu'n symud i ardal am y tro cyntaf yw'r cyfleusterau iechyd sydd ar gael. Byddai cadw neu sefydlu cyfleusterau gofal iechyd mewn cymuned yn gallu effeithio ar hyfywedd y Gymraeg, yn enwedig lle y mae canolfannau iechyd wedi dod yn fannau ymgynnull cymdeithasol sy'n cynnal rhwydweithiau Cymraeg lleol. Byddai diffyg cyfleusterau'n gallu peri i bobl oedrannus symud tŷ, neu arwain at sefyllfaoedd lle y mae teuluoedd yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd i helpu perthnasau oedrannus i symud i ardaloedd eraill.*

*Mae **Cwestiwn 15** yn ymwneud â darparu gwasanaethau. Gall gwahanol fathau o ddatblygu gael effaith ar argaeledd a hyfywedd y gwasanaethau presennol yn y gymuned, hyd yn oed os yw'r datblygiadau hynny'n eithaf pell i ffwrdd. Er enghraifft, byddai datblygiad manwerthu mawr yn gallu effeithio ar wasanaethau lleol ac ar rwydweithiau cymdeithasol yn y gymuned a all fod yn fannau cyfarfod ar hyn o bryd sy'n hybu rhyngweithio o fewn y gymuned. Mae hefyd yn bosibl y bydd penderfyniadau gan fusnesau mawr i symud neu gau safleoedd yn effeithio'n anghyfartal ar wahanol rannau o'r boblogaeth. Byddai hyn yn dibynnu ar y ddarpariaeth o drafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau preifat a'r gallu i'w defnyddio'n rhwydd. Gall hyn arwain hefyd at yr angen i symud tŷ a fydd yn effeithio ar gynaliadwyedd y gymuned yn y tymor hir.*

*Mae **Cwestiwn 16** yn trafod pryderon cymdeithasol a diwylliannol. Mae tuedd amlwg mewn rhai mathau o ddatblygu i greu tyndra cymdeithasol – er enghraifft, datblygiadau sy'n amlwg ar raddfa amhriodol ar gyfer y gymuned, neu fathau o ddefnydd sy'n ymddangos yn anaddas i gymeriad neu economi ardal benodol. Cafwyd gwrthwynebiad llafar yn y gorffennol i ddatblygiadau pentrefi gwyliau ar raddfa fawr a chynigion ar gyfer canolfannau cadw pobl ifanc a chanolfannau i geiswyr lloches. Ond yn aml bydd y posibilrwydd o wrthdaro'n llai amlwg ac yn fwy anodd ei ddiffinio. Mae datblygiadau ar gyfer pobl wedi ymddeol sy'n ateb galw o'r tu allan yn gallu achosi anesmwythyd ymysg pobl leol; gallant arwain at ddyfodiad teuluoedd di-Gymraeg. Yn yr un modd, gall canolfannau siopa newydd fod yn fygythiad i siopau lleol sydd wedi chwarae rhan hanfodol mewn cymunedau lleol am flynyddoedd lawer. Gellir cael drwgdeimlad yn erbyn pob datblygiad o'r fath. Yn sicr, gallant fynd yn groes i werthoedd lleol a pheri i bobl gredu nad yw pryderon diwylliannol yn cael eu cymryd o ddifrif. Yn gyffredinol, gallant ladd yr ysbryd mewn cymunedau Cymraeg.*

*Mae traddodiadau a diwylliant wedi'u seilio ar gysylltiadau teuluol a rhwydweithiau cymdeithasol.*

*Mae **Cwestiwn 17** yn cydnabod bod nifer o wahanol fathau o ddatblygu a all arwain at symud siaradwyr Cymraeg a dod â phobl ddi-Gymraeg i mewn. Os bydd hyn yn digwydd, gellir torri clymau teuluol; gellir chwalu rhwydweithiau cymdeithasol a gellir colli cydlyniant cymdeithasol. Unwaith eto, gall graddfa'r datblygiad fod yn fygythiad i ddiwylliant, drwy wanhau neu chwalu'r rhwydweithiau hynny sy'n sail i draddodiad. Cyfrifoldeb awdurdodau cynllunio lleol yw adnabod effeithiau posibl o'r fath drwy ymgynghori â chynrychiolwyr cymunedau.*

*Gan symud ymlaen o Gwestiwn 17, mae* ***Cwestiwn 18*** *yn cydnabod bod colli cydlyniant cymdeithasol fel hyn – ynghyd â datblygiadau sy'n cael effaith anghyfartal ar bobl iau – e.e. mathau newydd o ddefnydd cyflogaeth nad ydynt yn cwrdd ag anghenion lleol, neu dai na all prynwyr tro cyntaf eu fforddio – yn gallu cael effaith drychinebus ar sefydliadau cymunedol. Gall y rhain fod yn hollbwysig i hyfywedd cymunedau Cymraeg. Wedi iddynt ddiflannu, maent yn annhebygol o godi'n ôl. Unwaith eto, mae rhag-weld problemau o'r fath yn dasg i awdurdodau cynllunio drwy ymgynghori â grwpiau cymunedol. Rhaid i awdurdodau / grwpiau lleol wneud defnydd o'u gwybodaeth am ffyniant sefydliadau o'r fath (am y niferoedd sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd, ffyniant eisteddfodau lleol ac yn y blaen), a'r effeithiau graddol o ddatblygu a allai amharu ar gydbwysedd cymdeithasol a chyfranogi lleol dros amser.*

**ATODIAD 5: Cysylltiadau ar gyfer cael rhagor o wybodaeth ac ystadegau yng Nghyngor Sir Ddinbych:**

Mae'r rhain ar gael gan y Cyngor ar gais: proffilau ardaloedd Cynghorau Cymuned o Gyfrifiadau 1991, 2001, 2011. Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai Sir Ddinbych. Asesiadau o anghenion am dai cyngor (rhestrau aros) / Fforddiadwyedd / Incwm / Prisiau Tai.
Sefydliadau addysg a'u prif iaith.

**Cysylltiadau:**

Ar gyfer ymholiadau am faterion polisi cynllunio a'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn: Gwasanaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, Caledfryn, Ffordd y Ffair, Dinbych. Ffôn: 01824 706916 E-bost: ldp@denbighshire.gov.uk

Ar gyfer ymholiadau cyn cyflwyno cais, cysylltwch â'r: Rheolwr Rheoli Datblygu, Gwasanaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, Caledfryn, Ffordd y Ffair, Dinbych. Ffôn: 01824 706712 E-bost: planning@denbighshire.gov.uk

Ar gyfer ymholiadau ynghylch materion addysg, cysylltwch â: Moderneiddio Addysg, Cwsmeriaid a Chymorth Addysg, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun. Ffôn: 01824 706127 E-bost: **XXXXXX**

**Mentrau Iaith: Menter Iaith Sir Ddinbych**

Adeilad Diemwnt, 6 Heigad, Dinbych, LL16 3LE Ffôn 01745 812822

Ewch i'w gwefan i holi am brosiectau lleol neu grantiau

www.mentrauiaith-gogledd.com/dinbych

**Mae Mentrau Iaith yn gweithredu'n lleol ledled Cymru er lles y Gymraeg yn ein cymunedau. Maent yn gwneud hyn drwy:**

- Adfywio’r Gymraeg drwy adfywio ein cymunedau;
- Meithrin mwy o hyder mewn siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio’r Gymraeg yn eu bywyd pob dydd;
- Gweithio mewn partneriaeth i integreiddio’r Gymraeg â phob agwedd ar fywyd;
- Creu a hyrwyddo cyfleoedd gwaith cyfrwng Cymraeg;
- Rhannu a hyrwyddo gwerth y Gymraeg ymysg teuluoedd, plant a phobl ifanc;

-Cefnogi mentrau gan Fentrau Iaith eraill.

**Mentrau Iaith lleol eraill yw:**
Menter Iaith Conwy
Menter Iaith y Fflint/Wrecsam

**<u>Dolennau ar gyfer cyfeirio:</u>**

**Polisi Cynllunio Cymru**, 5ed argraffiad, Llywodraeth Cymru, (Tachwedd 2012):

http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/121107ppwedition5cy.pdf

**Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a’r Gymraeg**, Llywodraeth Cymru, (2013):

http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/planning-and-the-welsh-language/?lang=cy

**Planning and the Welsh Language: the Way Ahead**, Consortiwm Awdurdodau Lleol, (Rhagfyr 2005):

http://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20120330055304/http://www.byigwlb.org.uk/English/publications/Publications/4241.pdf